# TALBOT, GUEST,

A

# RHYDDID.

---

Morganwg rho'wch floedd
Ar g'oedd o blaid Guest, iawn orchest hyd arch,
Gwastadol mae'n haeddol, wr buddiol, o barch:
A Thalbot wr llon,—dau wiwlon diwaeledd o duedd
didor,
Am ryddid ar gynnydd o'r mynydd i'r môr:
Am hyny'n mhob manau,'n gu rhoddwch, bob graddau,
Heb hesu, 'ch pleidleisiau o'u plaid yn mhob plwy',
Fel caffont eu hethol'n Aelodau Seneddol,
O herwydd dau wrol a haeddol ynt hwy;
Hwy'n dygant i Ryddid o'n clefyd a'n clwy:
Os ydych chwi'n hoffi ymwrthod cam drethi,
Na lynwch eleni wrth y Tori *Adare*;
O herwydd mae hwnw a'i olwg ar elw,
Fe'ch twylla chwi'n arw, rwy'n bwrw, mewn bâr,
A Rhyddid gwlad Freiniol awch wrol ni châr.

Mae Talbot fel twr,
A Gwr o blaid Guest—dau onest eu hynt,
Nid ydynt anwadal rai gwamal fel gwynt;
Gan hyny mae sail, gref-adail, i gredu bydd llu yn cael
lles,
Trwy ethol dau siriol a gwreiddiol eu gwres;
Daw cynnydd Morganwg heb gelu i'n golwg;
Gwnant ymlid yn amlwg bob drwg yn mhell draw;
Daw Rhyddid, yn ddiau, yn helaeth dan hwyliau,
Yn lle bod ein bronau ar brydiau mewn braw;
Daw'r Toriaid, rhai taerion, yn llwydion dan llaw.
Guest ydyw'n gwastadol gynnorthwy tra nerthol,
A Thalbot ragorol,—rhai buddiol eu bod,
I ymlid gelynion sy'n peri'n gwasgfaeon,
Sef Toriaid, rhai taerion, annhirion eu nod;
Bydd braint i wlad Forgan, yrwan, is rhod.

MAB MORGAN.

---

LL. JENKINS, ARGRAFFYDD, CAERDYDD.

5.33

X205216233